Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid 2022

Dydd Iau 1 Rhagfyr 2022
Neuadd Brangwyn, Abertawe

# Rhagair y Gweinidog



Mae'n bleser gen i gyflwyno'r unigolion sydd wedi dod i'r brig yng Ngwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid 2022.

Gyda'i gilydd, mae'r unigolion sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol yn arddangos creadigrwydd, arloesedd a gwydnwch anhygoel y sector gwaith ieuenctid yng Nghymru, a'r cyfleoedd a'r gefnogaeth y maen nhw'n eu cynnig i'n pobl ifanc, mewn ffordd sy'n newid bywydau yn aml.

Mae gwaith ieuenctid yn elfen annatod o'r teulu addysg. Mae o werth arbennig yn ein brwydr i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol ac i osod safonau uchel i bawb. Mae'r rheini sydd wedi cyrraedd rownd derfynol Gwobrau eleni yn dangos sut mae gwaith ieuenctid yn creu myrdd o gyfleoedd i bobl ifanc gael hwyl, datblygu eu hyder a'u sgiliau, a gwneud cysylltiadau newydd. Mae'r cyfleoedd yma yn cynnig profiadau newydd, gan helpu i gynnal diddordeb pobl ifanc mewn addysg yn ei hystyr ehangaf.

Yn sail i'r ymrwymiad hwn i godi lefelau cyrhaeddiad mae cefnogi iechyd a lles ein dysgwyr. Mae rhai o'r prosiectau sydd wedi'u cynnwys yn y rownd derfynol eleni yn dangos bod gwaith ieuenctid yn aml yn arwain y ffordd yma hefyd, ac mae ystod enfawr o wasanaethau wedi'u datblygu i feithrin pobl ifanc, a darparu gofod diogel ac oedolyn dibynadwy pan fydd angen hynny arnyn nhw.

Mae'r unigolion sydd wedi cyrraedd y rownd hon yn arwydd o gryfder y sector ac amrywiaeth anhygoel y ddarpariaeth a gynigir gan y sectorau gwirfoddol a statudol. Rwy'n teimlo balchder arbennig ym mha mor effeithiol yw sefydliadau gwaith ieuenctid wrth feithrin partneriaethau â gwasanaethau eraill i gefnogi pobl ifanc.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i waith ieuenctid yng Nghymru wrth inni ymateb i argymhellion y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro a symud ar garlam i ddatblygu model cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru. Mae sefydlu Bwrdd Gweithredu Strategaeth Gwaith Ieuenctid yn garreg filltir allweddol. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda nhw a'r Pwyllgor Pobl Ifanc i ddatblygu gwasanaeth gwaith ieuenctid sy'n diwallu anghenion ein holl bobl ifanc. Ond ni allwn wneud hyn heboch chi, ein partneriaid. Rwy'n pwyso ar bob un ohonoch i helpu i lywio ein darpariaeth i'r dyfodol drwy rannu eich arbenigedd a'ch profiadau. Llongyfarchiadau i'r holl unigolion sydd wedi dod i'r brig, a diolch ichi i gyd am eich gwaith caled a'ch penderfyniad parhaus, sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ifanc yng Nghymru.

Diolch.

**Jeremy Miles, AS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

TEILYNGWYR

# Arloesi digidol



## Mindscape, Prosiect Tanyard Youth

Cafodd Mindscape ei greu, ei gynllunio a'i weithredu gan bobl ifanc Prosiect Tanyard Youth. Ei nod oedd creu cyfres o adnoddau digidol sy'n cefnogi iechyd meddwl a lles.

Ar ôl cytuno i wneud pum ffilm yn seiliedig ar y Pum Ffordd at Les, aeth y grŵp ati i gynnwys amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau ledled Sir Benfro yn eu gwaith o greu'r ffilmiau. Dangoswyd sgil o ran gwerthu cysyniad y prosiect i gyfranogwyr posibl, a rhannwyd llwyth gwaith enfawr o ffilmio a golygu. Cymerodd dros bedwar deg o unigolion a chwe sefydliad ran yn y gwaith ffilmio.

Roedd y beirniaid o'r farn bod Mindscape yn gyfle gwych i bobl ifanc ddysgu am dechnoleg ddigidol a meithrin sgiliau trosglwyddadwy pwysig. Dysgodd pobl ifanc sgiliau ym maes cynhyrchu ffilmiau, creu a defnyddio lluniau a fideos drôn, golygu ffilmiau ar ôl eu cynhyrchu, golygu sain, ffotograffiaeth, a chreu cynnwys ar-lein. Llwyddodd y bobl ifanc i gynhyrchu ffilmiau proffesiynol, gobeithiol. Mae'r rhain wedi cael eu rhannu ar-lein gannoedd o weithiau ac wedi derbyn canmoliaeth nifer o'r sefydliadau a fu'n rhan o'r ffilmio, a ddywedodd eu bod eisoes yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i gefnogi iechyd meddwl pobl ifanc.



## Prosiect 'Nunlle i Fynd', Gwasanaeth Ieuenctid Conwy

Cân ac animeiddiad clyfar am ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc yw 'Nunlle i Fynd'. Cafodd y syniad ei greu a'i ddatblygu gan bobl ifanc fel rhan o Brosiect y Dderwen, prosiect digartrefedd Gwasanaeth Ieuenctid Conwy.

Daeth Prosiect y Dderwen â grŵp o bobl ifanc at ei gilydd ar gyfer cyfres o weithdai ar-lein. Y bwriad yn wreiddiol oedd annog pobl ifanc i greu cynhyrchiad theatrig er mwyn addysgu eraill am ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc. Fodd bynnag, yn ystod y gweithdai, roedd y bobl ifanc yn teimlo'n ddigon hyderus i newid y briff hwn a chymryd yr awenau – gan ddewis yn hytrach ysgrifennu cân a chreu animeiddiad i gyd-fynd â hi.

Dysgodd y cyfranogwyr i weithredu technoleg newydd, camerâu ac offer recordio. Aethant ati i recordio'r lleisiau a chreu animeiddiad gafaelgar, gan ddefnyddio blychau cardbord a deunyddiau gwastraff eraill yr oeddent yn eu cysylltu â digartrefedd. Drwy annog y bobl ifanc i arwain â'u syniadau eu hunain, roedd modd sicrhau bod y cynnyrch terfynol yn berthnasol ac yn targedu eu cyfoedion. Defnyddir yr adnodd hwn mewn lleoliadau addysg anffurfiol a ffurfiol, ac mae'n cael derbyniad gwresog. Roedd y beirniaid o'r farn bod y prosiect yn gyfle gwych i bobl ifanc feithrin sgiliau digidol trosglwyddadwy, addysgu eu hunain a rhannu'r hyn a ddysgant ar yr un pryd.

# Cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn lleoliad gwaith ieuenctid



## Sarah McCreadie, Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd

Mae Sarah yn swyddog cymorth ieuenctid talentog yng Ngwasanaeth Ieuenctid Caerdydd, ac mae ganddi amrediad gwych o sgiliau digidol. Mae'n aelod allweddol o'r tîm digidol a fanteisiodd ar gyfleoedd newydd yn sgil y pandemig i lwyr drawsnewid dull gweithredu digidol y gwasanaeth ieuenctid.

Gweithiodd Sarah gyda grŵp o bobl ifanc a gweithwyr ieuenctid a sefydlwyd i gydgynllunio a gweithredu presenoldeb digidol cwbl newydd.  Roedd y beirniaid o'r farn bod ei dull gweithredu yn enghraifft ardderchog o fethodoleg gynhwysol dan arweiniad ieuenctid.

Yn dilyn ymgynghoriad â dros 100 o bobl ifanc, nodwyd Discord fel y platfform digidol  a ffefrid. Cafodd platfform Discord Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd ei lansio eleni. Erbyn hyn mae'n cynnig cymaint i'r bobl ifanc, yn arbennig y rhai a arferai ddioddef o orbryder cymdeithasol neu a oedd wedi'u hynysu. Mae'r gwasanaeth yn cynnig lle diogel i bobl ifanc gwrdd ag eraill, manteisio ar gymorth ieuenctid ac ymgysylltu â gweithgareddau ieuenctid. Mae gweithgareddau wedi cael eu cynnal ar-lein ac all-lein sy'n cynnwys cefnogaeth 1-1, sesiynau lles, partïon gwylio, sesiynau gemau, bowlio a thrip dros nos i Lundain i ymweld â Microsoft.

Ar gyfer Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd, mae Discord wedi llwyddo i ddod â gwaith ieuenctid at ystod ehangach o bobl ifanc – a hynny o fewn eu gofod nhw.



## Mixtup

Clwb ieuenctid yn Abertawe i bobl ifanc gallu cymysg rhwng 11 a 25 oed yw Mixtup. Mae'r sefydliad yn darparu ystod helaeth ac amrywiol o sesiynau clybiau ieuenctid hygyrch, teithiau ac ymweliadau, a gweithgareddau eraill. Mae hyn yn caniatáu i aelodau sy'n aml yn wynebu heriau corfforol ac emosiynol sylweddol gael hwyl a rhoi cynnig ar weithgareddau newydd o bob math mewn amgylchedd diogel, lle gallant fagu hyder a hunan-werth, a lleihau ymdeimlad o ynysu cymdeithasol.

Mae Mixtup wedi ei gwneud yn bosibl trefnu nifer anhygoel o brofiadau cadarnhaol i'w aelodau eleni, er gwaethaf yr heriau yn dilyn y pandemig a'r rhwystrau ychwanegol niferus y mae llawer o'i aelodau yn eu hwynebu yn ddyddiol. Cynrychiolodd yr aelodau Mixtup fel Llysgenhadon Cymunedol ar gyfer y Comisiynydd Plant, a gwnaeth Mixtup ei ffilm ei hun hyd yn oed, sef 'The Mixtup Museum'.

Roedd yn amlwg i'r panel beirniaid bod pobl ifanc sy'n mynychu Mixtup yn ystyried mai dyma eu lle diogel, eu teulu oddi cartref, a bod llawer o bobl ifanc yn dibynnu ar y grŵp i gymdeithasu. Dywedwyd ei fod yn cynnig cyfleoedd gwych sy'n cael effaith enfawr ar bobl ifanc a'u teuluoedd.




## Parth Ieuenctid STAND Gogledd Cymru

Clwb ar-lein i bobl ifanc rhwng 12 ac 18 oed yw Parth Ieuenctid STAND Gogledd Cymru. Mae gan y bobl ifanc ystod o heriau dysgu neu gymdeithasol megis awtistiaeth, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, gorbryder difrifol, mudandod detholus a phroblemau clyw. Gall pob un o'r rhain effeithio ar allu'r person ifanc i gyfathrebu ag eraill a datblygu cydberthnasau ystyrlon.

Cefnogir y grŵp i gynllunio pob sesiwn, gan roi amser i sgwrsio a chael hwyl drwy gemau, cwisiau a gweithgareddau fel gwrando ar gerddoriaeth a chanu. Cynhelir sesiynau myfyrio i helpu'r bobl ifanc ymlacio hefyd. Mae'r Parth Ieuenctid wedi'i strwythuro i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu sgwrsio wyneb yn wyneb a hefyd defnyddio'r 'ystafell sgwrsio' rithiol os ydynt yn ei chael yn anodd siarad ar ddiwedd diwrnod heriol. Mae'n cynnig lle diogel a chefnogol i rannu pethau hapus ac anodd, ac i dderbyn cymorth gan gyfoedion a gweithwyr ieuenctid.

Mae'r Parth Ieuenctid yn fwrlwm wythnosol o sgyrsiau wyneb yn wyneb a sgyrsiau teipio, ac mae pob person ifanc bellach yn cadw eu camerâu ymlaen, sy'n destun boddhad mawr yn dilyn y pryderon cymdeithasol gwreiddiol a fynegwyd gan rieni a gweithwyr proffesiynol y bobl ifanc. Cydnabu'r beirniaid fod cynyddu lefelau'r cyfranogiad a'r grymuso yn gyflawniadau enfawr i'r grŵp hwn, sy'n dangos potensial mawr ar gyfer y dyfodol.



## Stuart Parkinson, Hwb Byddar Cymru

Mae Stuart wedi bod yn weithiwr ieuenctid ers dros 20 mlynedd. Ef yw prif weithiwr ieuenctid Hwb Byddar Cymru, sydd wedi bod yn 'ofod diogel' i bobl fyddar yng Nghaerdydd a'r cyffiniau ers dros bedwar degawd. Mae Stuart wedi sicrhau mai ethos Clwb Ieuenctid Byddar Cŵl Caerdydd yw ei fod yn agored i bawb, ac yn arbennig i'r rhai a allai fod wedi profi ynysu, eu gwthio i'r cyrion, camfanteisio neu wahaniaethu, neu i'r rheini sy'n cymryd eu hamser i ymgyfarwyddo â'u hunaniaeth fel unigolion byddar.

Mae Stuart yn helpu datblygiad pobl ifanc fyddar yn emosiynol ac yn seicolegol drwy roi cyfleoedd iddynt gwrdd â rôl-fodelau byddar cryf ac i fwynhau profiadau sy'n gwella ansawdd eu bywydau. Mae'n cydweithio â'i dîm i greu gweithgareddau, gwybodaeth ac adnoddau cynhwysol - gan hwyluso bywyd i bobl ifanc fyddar sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Mae Stuart yn sicrhau bod darpariaeth ieuenctid a chymorth ieuenctid o safon yn cael eu cynnig i bawb. Mae'n aml yn meddwl am ei brofiadau ei hun fel person ifanc byddar ac yn rhannu'r dylanwad gafodd sefydliadau ieuenctid fel Friends of Young Deaf (FYD) ar ei fywyd ef. Mae hefyd yn gweithio gyda gwirfoddolwyr sy'n rhan o brosiectau a grwpiau cymunedol, gan gynnwys Cardiff Deaf Creative Hands, Sunday Sign School, Gŵyl Gelfyddydau Pobl Fyddar, Prosiect Treftadaeth Pobl Fyddar, Prosiect Ynni Pobl Fyddar, Pride Byddar a Pride Cymru, Theatr y Sherman a Theatr Taking Flight.

Tynnodd y panel beirniaid sylw at ehangder profiad Stuart, effaith amlwg ei waith a'i ymrwymiad hirdymor, gan ddweud bod yr ymroddiad hwn i wella bywydau pobl ifanc fyddar heb ei ail.

## Arweinyddiaeth



### David Williams, Gwasanaeth Ieuenctid Torfaen

David yw Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid Torfaen, rôl sy'n cynnwys cyfrifoldeb dros glybiau ieuenctid cymunedol lleol, gwaith ieuenctid 'allan ar y strydoedd' drwy dîm arall, gwaith ieuenctid o fewn ysgolion lleol, ac amrywiaeth o brosiectau a rhaglenni ieuenctid cyffrous ac arloesol.

Yn ogystal â'r rôl brysur hon, mae David yn frwd dros godi proffil gwaith ieuenctid drwy gymryd rhan mewn ystod o grwpiau trawslywodraethol, a gan gadeirio'r Grŵp Prif Swyddogion Gwaith Ieuenctid yn ddiweddar. Mae hefyd yn parhau i wasanaethu fel arweinydd gwirfoddol mewn clwb ieuenctid lleol, gan gynnal y cysylltiad hwnnw â sefydliad llawr gwlad.

Cyfrannodd David at greu Rhaglen Brentisiaethau Gwasanaeth Ieuenctid Torfaen. Cyflwynodd hefyd drefniant i seicolegydd addysg weithio o fewn Gwasanaeth Ieuenctid Torfaen i gefnogi gweithwyr ieuenctid drwy helpu i ddatblygu strategaethau a deunyddiau dysgu effeithiol pwrpasol.

Tynnodd y panel beirniaid sylw at y ffaith bod arweinyddiaeth David yn gynhwysol, yn gydweithredol ac yn gynnes. Yn ogystal â bod yn rheolwr hynod alluog, mae'n ysbrydoli ei dîm drwy'r hyn y mae cydweithwyr yn ei ddisgrifio fel "brwdfrydedd heintus" a pharodrwydd i "symud nefoedd a daear i gefnogi pobl ifanc". Mae'n rôl-fodel ardderchog ym mhob ffordd, yn barod iawn i gydnabod cyfraniad eraill a rhannu gwybodaeth, gan annog ei dîm i ddatblygu a symud ymlaen.

## Gweithiwr ieuenctid eithriadol



### Andrew Owen, Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd

Mae Andrew yn weithiwr cymorth ieuenctid cymwysedig amser llawn i Wasanaeth Ieuenctid Gwynedd. Cafodd ei enwebu am Wobr Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid gan grŵp o bobl ifanc sy'n credu iddo gael effaith gadarnhaol enfawr ar eu bywydau. Maent wedi esbonio sut mae'n helpu eu hyder, yn parchu eu barn ac yn gwneud iddynt deimlo 'yn ddiogel, yn hapus ac yn werthfawr' yn ogystal â bod yn rhywun y maent 'hefyd yn cael llawer o hwyl a hapusrwydd gydag ef'.

Mae rôl Andrew yn cynnwys gweithio mewn dwy ysgol uwchradd a gwahanol gymunedau yn ardal Dwyfor. Mae'n cynllunio, yn cydlynu ac yn gweithredu rhaglen helaeth ac amrywiol o wasanaethau ieuenctid – ac mae'r effaith yn lleol yn anhygoel. Mae'n gweithio ar amryw o raglenni addysgol, gan gynnwys prosiect podlediad 2 flynedd, a gaiff ei gydgynllunio â phobl ifanc, sy'n eu galluogi i ennill cymhwyster cydnabyddedig.

Mae gan Andrew y gallu i wneud cysylltiad cryf â phobl o bob cefndir, sy'n ei alluogi i bontio'n hawdd â gwahanol gymunedau, gan ddatblygu syniadau arloesol ac arferion diogel ar yr un pryd. Mae wedi gweithio gyda phobl ifanc i gael arian gan yr heddlu i fynd i'r afael â gweithgareddau gwrthgymdeithasol; mae wedi datblygu partneriaeth gyda'r clwb pêl-droed lleol, ac mae wedi galluogi pobl ifanc i ddarganfod eu cymuned drwy brosiect celfyddydol gan ddefnyddio theatr a drama. Tynnodd y panel beirniaid sylw at effaith ac ymrwymiad amlwg Andrew, yn ogystal â'i frwdfrydedd dros addysgu a dysgu, a'i agwedd gadarnhaol.



## Carly Powell, Gwasanaeth Ieuenctid Caerffili

Mae Carly yn weithiwr ieuenctid cymwysedig sy'n ymroddedig i gefnogi pobl ifanc a chreu cyfleoedd cadarnhaol. Mae'n frwdfrydig, yn tywynnu positifrwydd ac yn rôl-fodel gwych i'r rhai o'i chwmpas.

Mae rôl Carly yn canolbwyntio ar wella iechyd meddwl a lles emosiynol y rhai y mae'n eu cefnogi. Mae llawer o'r bobl ifanc y mae Carly yn gweithio gyda nhw yn fregus. Mae Carly yn rhagorol am feithrin perthynas gadarnhaol â nhw ac mae ganddi enw am allu ymgysylltu'n dda, gan lwyddo yn aml pan fydd eraill yn ei chael yn anodd gwneud. Cydnabu'r panel beirniaid yr effaith enfawr y mae wedi'i chael ar y bobl ifanc y mae'n gweithio gyda nhw, yn aml drwy brofiadau mewn lleoliadau awyr agored a thripiau preswyl.

Mae Carly yn cynnig amrywiaeth enfawr o weithgareddau. Mae wedi datblygu gweithdai sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl a lles emosiynol, gan gynnwys sesiynau ar hunan-werth, meithrin hyder a chydberthnasau, a hi sy'n arwain y gweithdai hyn. Mae Carly yn cynnig hyfforddiant a chefnogaeth i gydweithwyr ac yn datblygu cysylltiadau cryf rhwng gwasanaethau proffesiynol ac adrannau.

A hithau'n amlwg yn unigolyn sy'n mynd y tu hwnt i'w dyletswyddau fel gweithiwr ieuenctid, mae Carly yn cael ei disgrifio gan un o rieni'r bobl ifanc yn ei sesiynau fel "ysbrydoliaeth [...] sydd wir wedi ei geni i weithio gyda phobl ifanc a'u meithrin".



## Lin Brackenbury, Clybiau Merched a Bechgyn

Mae Lin yn weithiwr ieuenctid profiadol, cymwysedig ac yn uwch aelod o staff Clwb Ieuenctid Lleferydd ac Iaith y Dreigiau Newydd, yn Sir y Fflint.

Mae'r clwb yn darparu gofod ar gyfer pobl ifanc sy'n wynebu anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu sylweddol, gan gynnwys pobl ifanc ag awtistiaeth, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, syndrom Down a pharlys yr ymennydd. Mae'n achubiaeth i lawer o'i aelodau, gan mai dyma'r unig gyfle yn aml sydd ganddynt i gymdeithasu â ffrindiau y tu allan i'r ysgol. Mae ymuno â sesiynau wythnosol wedi bod yn gam pwysig i'r rhai sy'n mynychu, ac wedi eu grymuso i fagu hyder a rhyngweithio â phobl ifanc eraill.

Roedd y panel beirniaid yn teimlo bod Lin yn gwneud gwaith o safon eithriadol, a hynny'n gyson, ei bod yn arweinydd tîm sy'n ysbrydoli ac sydd â chydberthynas wych â'r bobl ifanc y mae'n eu cefnogi. Mae'n sicrhau bod y bobl ifanc yn teimlo'n ddiogel ac wedi'u cynnwys, a'u bod yn gallu datblygu eu sgiliau cymdeithasol a gwneud ffrindiau mewn amgylchedd lle nad ydynt bellach yn cael eu gwthio i'r cyrion am eu bod yn anabl. Yng ngeiriau un rhiant, "Mae Lin yn berson anhygoel sydd wedi trawsnewid bywyd fy mhlentyn drwy ei rôl yng Nghlwb Ieuenctid Lleferydd ac Iaith y Dreigiau Newydd."

# Gwaith gwirfoddol eithriadol mewn lleoliad gwaith ieuenctid



## David Stallard, Mixtup

Mae David wedi bod yn wirfoddolwr hynod ymroddedig gyda Mixtup ers ei sefydlu yn 2011. O'r cychwyn cyntaf, mae wedi helpu i'w lywio o fod yn brosiect, i fod yn ddarpariaeth annibynnol, i fod yn elusen sefydledig. Yn ogystal â gweithio'n llawn amser, mae David yn rhoi ei amser ar benwythnosau a nosweithiau yn rheolaidd i wirfoddoli. Mae'n gweithio'n ddiflino i helpu i gynnig darpariaeth ieuenctid sefydledig sy'n cynnwys pob person ifanc, beth bynnag eu heriau personol mewn bywyd. Mae'n gwirfoddoli'n rheolaidd mewn sesiynau, yn ymddiriedolwr ymroddedig, yn oruchwyliwr amhrisiadwy, ac ef hefyd yw Swyddog Amddiffyn a Diogelu Plant y sefydliad.

Mae David yn garedig a gofalgar, mae'n gefnogol ac mae ganddo galon fawr. Mae'n sylwi'n syth ar bobl ifanc sy'n ei chael yn anoddach cymryd rhan mewn gweithgareddau, ac mae'n siarad â nhw i wneud yn siŵr eu bod yn gallu gwneud yr hyn y maent eisiau ei wneud. Tynnodd y panel beirniaid sylw at yr effaith enfawr y mae'n ei chael ar y bobl ifanc yn Mixtup, ei ymroddiad hirdymor a'i allu amlwg i ysbrydoli'r rhai o'i gwmpas.

Yng ngeiriau Jo Stephens, Rheolwr Prosiect yn Mixtup, "Mae'r oriau o wirfoddoli y mae David wedi'u rhoi i Mixtup y tu hwnt i'w cyfrif. Does dim modd mesur yr effaith gadarnhaol y mae ei gyfraniad e wedi'i chael dros y blynyddoedd. Ac mae'n gwneud y cyfan am ychydig o fisgedi. Mae angen rhywun fel Dave ar bob sefydliad - ond dydyn ni ddim am ei rannu!".



## Kieran Saunders, CCYP

Mae Kieran wedi bod yn gwirfoddoli gyda Chanolfan Pobl Ifanc Cwmbrân (CCYP) ers iddo fod yn 8 oed ac mae wedi dod yn rhan annatod o'r tîm - aelod gwerthfawr sy'n "llawn llawenydd a llawn egni". Mae ei rôl yn cynnwys cynllunio a datblygu ystod eang o weithgareddau gyda'r bobl ifanc, gan helpu i'w cyflwyno mewn ffordd hwyliog a diddorol.

Mae wedi meithrin ac atgyfnerthu cydberthnasau ag unigolion a sefydliadau eraill yn y gymuned leol, fel yr heddlu a Chanolfan Siopa Cwmbrân gan weithio gyda nhw i gefnogi canolfannau galw heibio gyda'r nos. Mae'n cyfathrebu â staff eraill, yn gweithio dros fuddiannau'r bobl ifanc yn ddyddiol, ac yn angerddol dros sicrhau bod pobl ifanc yn cael dweud eu dweud. Mae Kieran yn gweithio'n galed i drefnu gweithgareddau a gweithdai sy'n mynd i'r afael â'r materion sydd fwyaf perthnasol i bobl ifanc. Mae'n hynod ymwybodol bob amser o'r rhwystrau a'r problemau sy'n gallu eu hwynebu.

Roedd y panel beirniaid yn teimlo bod Kieran yn wirfoddolwr y mae pobl ifanc yn gallu adeiladu perthynas gref ag ef. Canmolodd y beirniaid ef am ei ymroddiad a'i ymrwymiad, gan nodi'n glir ei fod yn rôl-fodel gwych i bobl ifanc ac yn gaffaeliad aruthrol i CCYP.





## Lela Patterson, MAD Abertawe

Mae Lela wedi gwneud cyfraniad eithriadol i waith ieuenctid drwy wirfoddoli gydag ystod eang o sefydliadau a phrosiectau gan gynnwys Coda Dy Lais, y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol a phrosiect State of Mind.

Fel rhan o brosiect Clybiau Merched a Bechgyn Cymru a Coda Dy Lais MAD Abertawe, mae Lela wedi tynnu sylw at y rhwystrau y mae pobl ifanc sy'n ddall neu'n rhannol ddall yn eu hwynebu wrth geisio cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, ac mae'n parhau i ddadlau dros well hygyrchedd a chynhwysiant. Roedd Lela hefyd yn un o Gydfentoriaid cyntaf rhaglen State of Mind Platfform (sy'n cefnogi iechyd meddwl a lles pobl ifanc), gan ymgynghori ynghylch hygyrchedd, ac mae wedi cefnogi'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol i ddatblygu strategaethau cynhwysiant.

Ar hyn o bryd, mae Lela yn aelod o grŵp Camerados yn Ynys y Barri, lle mae'n cyfarfod bob wythnos â grŵp o bobl ifanc i greu cysylltiad cymunedol ac i leihau unigrwydd a'r ymdeimlad o fod wedi'u hynysu. Mae'r prosiect wedi tyfu o 4 sylfaenydd i 25 o bobl, ac mae Lela wedi bod yn ganolog o ran gofalu bod pobl yn cael croeso.

Cymeradwyodd y panel beirniaid Lela am ei gwybodaeth, ei hangerdd a'i hymrwymiad i godi ymwybyddiaeth o hawliau pobl anabl. Mae'n rhywun sy'n newid sefyllfaoedd, ac sy'n creu gofod diogel i bobl lle nad oes neb yn eu barnu, a lle gallant ddysgu, gan arwain at newidiadau cadarnhaol mewn agweddau, iaith ac arferion.

## Mahieddine Dib, EYST

Mae Mahieddine yn gwirfoddoli mewn Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST) yn Wrecsam. Mae'n aelod allweddol o'r tîm, ac mae ganddo ffordd gadarnhaol, gynnes, gyfeillgar a chroesawgar gyda phawb. Mae ei rôl yn cynnwys sicrhau bod y bobl ifanc i gyd yn cofrestru bob wythnos, gan gyfarch pob un ohonynt yn unigol a chymryd yr amser i siarad â nhw.

Yn siaradwr Arabeg rhugl, mae ei brofiad wedi bod yn amhrisiadwy wrth groesawu pobl ifanc a'u teuluoedd sy'n siarad Arabeg i'r ardal. Mae Mahieddine yn addysgu pobl ifanc yn anffurfiol ar y pethau bychain a all wneud gwahaniaeth enfawr – gan rannu opsiynau cymorth sydd wedi bod o fudd iddo ef, rhannu cyfleoedd y mae gan bobl ifanc ddiddordeb ynddynt, eu cyfeirio at wybodaeth, a bod yn wyneb cyfeillgar a chefnogol. Mae'n defnyddio dulliau diwylliannol-sensitif a chynhwysol i addysgu a grymuso'r bobl ifanc y mae'n eu cefnogi.

Mae Mahieddine yn ymroddedig dros ben ac yn addasu'n wych i anghenion y grŵp. Mae'n ymwneud â phob un o brosiectau'r Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig. Yn dilyn cais llwyddiannus am Grant Dan Arweiniad Ieuenctid gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam, gwerth £1,000, aeth ati yn ddiweddar i gynllunio a gweithredu prosiect i ddarparu pryd bwyd am ddim mewn bwyty ar gyfer teuluoedd ethnig lleiafrifol bregus oedd newydd symud i Wrecsam. Roeddent wrth eu bodd yn cael creu cysylltiadau a chydberthnasau newydd. Gwnaeth yr effaith gadarnhaol y mae Mahieddine yn ei chael ar y bobl ifanc y mae'n gweithio gyda nhw argraff ar y beirniaid, a chanmolwyd hefyd ei ymroddiad i ddysgu a rhannu ei brofiadau er budd eraill.

# Y Gymraeg mewn gwaith ieuenctid



## Cynhadledd #FelMerch, Urdd Gobaith Cymru

Un o brosiectau'r Urdd yw #FelMerch, sy'n ceisio ysbrydoli, cefnogi, a grymuso menywod ifanc a merched i gadw'n heini, a chwalu'r rhwystrau sy'n atal menywod ifanc a merched rhag cymryd rhan mewn chwaraeon.

Methodoleg gwaith ieuenctid oedd sail datblygu #FelMerch drwy rwydwaith o lysgenhadon benywaidd ifanc ledled Cymru. Sicrhaodd y dull hwn fod gan lysgenhadon #FelMerch y llais, y llwyfan a'r wybodaeth i wneud gwahaniaeth mewn chwaraeon i ferched.

Daeth y syniad ar gyfer cynhadledd chwaraeon ieuenctid benywaidd gyntaf Cymru gan lysgenhadon #FelMerch yr Urdd a oedd am weithredu ymhellach. Roedd y gynhadledd genedlaethol dau ddiwrnod yn cynnwys siaradwyr proffil uchel, ac yn gyfle i ferched a menywod gysylltu, rhannu straeon a chael eu hysbrydoli a'u grymuso. Roedd y gynhadledd, a gynhaliwyd yn y Gymraeg, yn canolbwyntio'n benodol ar annog a chefnogi'r rheini sy'n llai hyderus yn y Gymraeg i gyfrannu ac i glywed y Gymraeg fel iaith fyw. Aeth dros 140 o fenywod ifanc i'r digwyddiad.

Cymeradwyodd y panel beirniaid y prosiect, gan dynnu sylw ato fel enghraifft ardderchog o ddefnyddio'r Gymraeg mewn ffordd gynhwysol a thrawiadol, yn ogystal â chynnig profiad a chyfle dysgu gwych i'r llysgenhadon a arweiniodd y gwaith o ddatblygu'r digwyddiad yn ogystal â'r rhai a oedd yn bresennol.



## GISDA

Mae GISDA yn elusen sy'n arddangos arferion ardderchog ym maes gwaith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n darparu cefnogaeth gydag anghenion llety; sgiliau byw'n annibynnol; addysg, cyflogaeth a chyfleoedd; a lles a iechyd meddwl.

Wrth galon gwasanaethau GISDA mae'r gred bod gwerth eithriadol i allu darparu gwasanaethau yn newis iaith person ifanc. Cynigir cymorth a hyfforddiant i staff sydd angen help i dyfu mewn hyder neu i wella'u sgiliau Cymraeg, er mwyn sicrhau eu bod mewn sefyllfa i ddarparu'r cymorth priodol i bobl ifanc fregus yn eu mamiaith.

Cydnabu'r panel beirniaid fod y gwasanaeth y mae GISDA yn ei ddarparu yn arbennig ac yn gwneud gwahaniaeth enfawr i bobl ifanc. Tynnwyd sylw at sylwadau gan bobl ifanc a oedd yn dweud y byddent mae'n debyg "ar soffa ffrindiau", yn "mynd o dŷ i dŷ", neu "wedi marw mae'n siwr" oni bai am GISDA. Heb os nac onibai, mae gallu cyfathrebu ym mamiaith person ifanc wrth drafod materion sensitif yn gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn aruthrol.

## Hyrwyddwr/wyr gwaith ieuenctid



### Heulwen O'Callaghan, Prosiect Arweinyddiaeth Iau

Mae Heulwen yn weithiwr ieuenctid cymwysedig o fewn Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid Sir Gâr, ac mae ei chylch gwaith yn cwmpasu'r sir gyfan. Mae'n angerddol dros greu cyfleoedd cynhwysol a sicrhau cyfle cyfartal i bobl ifanc leol Gymraeg eu hiaith manteisio arnynt.

Yn ei rôl fel Gweithiwr Cyfranogi, mae Heulwen wedi datblygu, ysgrifennu a chreu Prosiect Arweinyddiaeth Iau sy'n galluogi pobl ifanc i ddysgu sgiliau drwy wirfoddoli, datblygu dealltwriaeth o waith ieuenctid, ac ennill cymhwyster cydnabyddedig (Agored Cymru). Canolbwyntiodd Heulwen ar ddatblygu cyfleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg, gan weithio gyda sefydliadau partner yn y sector gwirfoddol i alluogi pobl ifanc leol i ymgymryd â chyfleoedd nad oeddent ar gael iddynt yn y Gymraeg o'r blaen.

Mae'r Prosiect Arweinyddiaeth Iau wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc ymgysylltu â'u cyfoedion mewn gofod diogel, yn eu dewis iaith, gydag oedolion dibynadwy. Mae'r partneriaethau a ddatblygwyd o fewn y gymuned leol a chyda'r sector gwirfoddol yn hybu'r Gymraeg mewn ffordd bendant drwy gyfrwng gwaith ieuenctid â chymorth. Yn ogystal â'r arfer ardderchog a ddilynwyd a'r effaith gadarnhaol ar bobl ifanc yn lleol, cydnabu'r panel beirniaid botensial enfawr y prosiect o ran cyfleoedd yn y dyfodol i ehangu darpariaeth gwaith ieuenctid drwy gyfrwng y Gymraeg.



### Hannah Lewis, Yr Hwb, Torfaen

Mae Hannah yn weithiwr ieuenctid cymwysedig yn Yr Hwb, Blaenafon, lle mae'n cael effaith enfawr ar yr holl staff, y bobl ifanc a'r asiantaethau partner y mae'n ymwneud â nhw.

Mae prif rôl Hannah yn cyfuno cydlynu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc ym Mlaenafon drwy bartneriaeth a hefyd darparu'r gwasanaethau yn uniongyrchol i'r bobl ifanc. Partneriaeth arloesol yw Yr Hwb rhwng gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol a'r sefydliad trydydd sector, Hwb Torfaen – mae'n achubiaeth i bobl ifanc Blaenafon. Mae'n cynnig cyfleoedd gwych i bobl ifanc yn un o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn Nhorfaen, gan dynnu ar yr adnoddau gorau sydd gan y sector statudol a'r trydydd sector i'w cynnig. Mae Hannah hefyd yn cefnogi pobl ifanc sydd â Diabetes Math 1 drwy brosiect partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, lle mae'n darparu cyswllt rhwng y person ifanc a'r gwasanaeth iechyd, gan wella'r cyfathrebu a chryfhau cydberthnasau.

Tynnodd y panel beirniaid sylw at lwyddiant Hannah o ran hyrwyddo gwaith ieuenctid ymhlith partneriaid yn lleol. Fel unigolyn mae'n ddeinamig, yn frwdfrydig ac ymroddedig. Mae Hannah yn enghraifft wych o'r ffordd y gall cydweithio a defnyddio gwaith ieuenctid fel sail i ymgysylltu â phobl ifanc wneud gwahaniaeth gwirioneddol a chynaliadwy ym mywydau pobl ifanc.



## Karen a Jake Henry, Vibe Youth CIC

Mae Vibe Youth yn Abertawe yn fudiad sy'n ymfalchïo yn y ffaith ei fod yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau sy'n helpu pobl ifanc i ymdopi â digwyddiadau bywyd a goresgyn heriau, beth bynnag eu hamgylchiadau. Mae Karen a Jake Henry, sylfaenwyr Vibe Youth, yn cynllunio ac addasu eu gwasanaethau mewn ymateb i anghenion y bobl ifanc a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Maent yn defnyddio eu teithiau personol eu hunain a'u profiad i ddangos sut y gellir trawsnewid bywyd drwy ddatblygu dealltwriaeth unigolyn ohono'i hun, ei annog i ymrwymo i ystyried ei hun yn werthfawr, a'i rymuso i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth.

Mae Vibe Youth yn cynnig ystod o wasanaethau cyffredinol ac arbenigol i bobl ifanc, gan gynnwys prosiect arloesol 'Street Safe' mewn ysgolion, sy'n mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chyffuriau a thrais difrifol. Yn angerddol dros wella dealltwriaeth o rai o'r heriau mwyaf y mae pobl ifanc yn eu hwynebu, mae Karen a Jake hefyd yn cynnig gweithdai i weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr sy'n canolbwyntio ar y ffactorau a'r amgylchiadau sy'n gysylltiedig â bod yn rhan o gangiau a throseddu – gan herio eraill i ymateb, gwneud gwahaniaeth a helpu i newid a gwella bywydau pobl ifanc.

Cydnabu'r beirniaid yr adborth hynod gadarnhaol a ddaeth i law am berthnasedd sesiynau Vibe Youth; yr effaith enfawr y maent yn ei chael ar gyfranogwyr a gweithwyr proffesiynol; ac yn gyffredinol y gwaith rhyfeddol y mae Karen a Jake yn ei wneud i annog pobl i gychwyn ar ffyrdd positif o fyw, beth bynnag eu cefndir.



## Nick Corrigan, Media Academy Cymru

Ers dros 30 mlynedd mae Nick wedi arwain gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Mae wedi treulio dros 20 mlynedd yn canolbwyntio ar wasanaethau yng Nghymru, a sefydlodd Media Academy Cymru (MAC) 13 mlynedd yn ôl.

Yn angerddol dros werth gwaith ieuenctid, mae Nick wedi herio partneriaid statudol yn aml i ystyried pŵer methodoleg gwaith ieuenctid mewn gwahanol gyd-destunau. Gwelwyd yr enghraifft orau o hyn pan grëwyd rhaglenni dargyfeirio, lle gwelwyd 17,000 o blant a phobl ifanc yn cael eu dargyfeirio o'r system gyfiawnder troseddol. Nick a'i dîm fu'n goruchwylio'r gwaith hwn, sydd bellach ar waith ledled Cymru.

Gan arwain y ffordd ar weithgarwch ymhlith ieuenctid sy'n mynd i'r afael â chwestiwn trais, mae gan Nick berthynas weithio gref â heddluoedd, swyddfeydd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, y Swyddfa Gartref, a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'n hyrwyddo gwaith ieuenctid yn ei rolau eraill hefyd, gan gynnwys fel Cadeirydd Cerdd Gymunedol Cymru; Cadeirydd Green Willow; ac aelod o banel arbenigol y Gronfa Gwaddol Ieuenctid. Yn ogystal, mae Nick yn cael ei wahodd i ddarlithio yn nhri o brifysgolion Cymru.

Mae effaith Nick ar unigolion hefyd yn eithriadol. Fel y mae un person ifanc yn ei ddweud, 'Roedd yn gwrando. Mi ges i 'nghlywed, roedd yn rhoi gwerth arna' i, roeddwn i'n teimlo ei fod eisiau imi lwyddo'. Cymeradwyodd y panel beirniaid ymroddiad a gallu Nick i gysylltu â phobl ifanc, gan dynnu sylw at ehangder ei brofiad a'i ymrwymiad i hyrwyddo gwaith ieuenctid ymhell y tu hwnt i'r sector.

# Dangos rhagoriaeth wrth gynllunio a chyflenwi mewn partneriaeth ar lefel ranbarthol neu genedlaethol



## Inspire, Gwaith Ieuenctid mewn Ysbyty

Mae Inspire yn brosiect yn Ysbyty Maelor, Wrecsam. Cychwynnodd fel partneriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac ers hynny, mae wedi ehangu'r ddarpariaeth i Sir y Fflint. Mae Inspire yn rhoi cymorth i bobl ifanc sy'n dod i'r ysbyty oherwydd hunan-niwed, a'r prif fwriad yw lleihau'r cyfraddau sy'n dychwelyd i'r ysbyty. Mae'r prosiect yn cynnwys tîm amlddisgyblaethol o weithwyr ieuenctid a seicolegwyr cynorthwyol sy'n gweithio'n holistaidd i gefnogi pob person ifanc.

Wrth gefnogi person ifanc ar sail un-i-un, mae gweithwyr ieuenctid Inspire yn cysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill y mae'r person ifanc yn ymwneud â nhw. Mae hyn yn helpu'r llif cyfathrebu a phontio rhwng gwasanaethau, gan sicrhau bod anghenion a dymuniadau person ifanc yn cael eu diwallu. Mae'n cynnwys gweithio ar y cyd â gweithwyr cymdeithasol, ysgolion a cholegau, cwnselwyr, CAMHS, gwasanaethau arbenigol ac eraill. Mae'r gweithwyr ieuenctid yn gweithio dros fuddiannau pobl ifanc ac yn hyblyg yn eu dull gweithredu yn ôl anghenion yr unigolyn, ei sefyllfa a'i anawsterau, a'r hyn y mae am ei gyflawni.

Amlygodd y panel beirniaid sut mae dull gweithredu hynod lwyddiannus Inspire yn sicrhau bod gwerth gwaith ieuenctid mewn lleoliadau iechyd yn cael ei gydnabod yn ehangach. Mae'r prosiect yn parhau i dyfu, ac mae timau meddygol eraill bellach yn dewis buddsoddi mewn gweithwyr ieuenctid Inspire a'u harbenigedd.



## Ruth Letten, CONNECT, Adoption UK

Ruth Letten yw Rheolwr CONNECT, fframwaith cenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi'u mabwysiadu. Datblygwyd CONNECT drwy drefniant cydweithredu rhwng Adoption UK Cymru a'r pum gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol sydd, gyda'i gilydd, yn creu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Mae'n sicrhau cymorth i blant a phobl ifanc sydd wedi'u mabwysiadu ledled Cymru.

Mae Ruth yn gweithio mewn partneriaeth â'r pum gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol drwy Gymru gyfan. Mae Ruth a'i thîm, sy'n arwain ar y gwaith o ddatblygu CONNECT, wedi cyflwyno egwyddorion gwaith ieuenctid i dimau gofal cymdeithasol sy'n darparu gwasanaethau mabwysiadu. Cydnabu'r panel beirniaid fod Ruth wedi goresgyn her sylweddol wrth weithio â phob rhanbarth i'w helpu i ddeall sut beth yw'r model gwaith ieuenctid a pham mai hwn yw'r dull gweithredu gorau ar gyfer cydweithio â phobl ifanc sydd wedi'u mabwysiadu mewn ffordd sy'n sicrhau ymgysylltiad go iawn. Mae tîm Ruth bellach yn cynnal sesiynau misol, sef 'Connected', ar gyfer pobl ifanc sydd wedi'u mabwysiadu, sef rhai o'r unigolion mwyaf agored i niwed yng Nghymru.

Mae'r dull gweithredu a gafodd ei hybu gan Ruth yn cael ei dderbyn yn eang erbyn hyn ac mae CONNECT yn cael ei ddatblygu ar gyfer ei weithredu ledled y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, sy'n llwyddiant rhyfeddol.

# Dangos rhagoriaeth wrth gynllunio a chyflenwi mewn partneriaeth ar lefel leol



## Gŵyl Llesiant,
## Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd

Mae'r Ŵyl Lesiant yn canolbwyntio ar hybu iechyd meddwl a lles, gan ddarparu mynediad hawdd i bobl ifanc at wybodaeth a chefnogaeth gan ystod o wasanaethau.

Y bwriad cychwynnol oedd y byddai ymarferwyr gwaith ieuenctid a grŵp o 15 o bobl ifanc yn cydgynllunio cynhadledd ddwy awr. Fodd bynnag, yn sgil dymuniad i ddod â newid cadarnhaol i'w cymunedau, bu'r bobl ifanc yn arwain ar y cynllun hwn ac yn ei ddatblygu ymhellach i fod yn ŵyl wythnos o hyd ledled sir Gwynedd. Gweithiodd ymarferwyr yn ddiflino i gefnogi'r grŵp o bobl ifanc drwy gydol y cyfnod hwn, gan hwyluso'r ffordd i gydweithio â 31 o sefydliadau o'r sectorau gwirfoddol a statudol i gynnal yr ŵyl.

Roedd yr ŵyl yn llwyddiant ysgubol – yn hwyl, llawn gwybodaeth, yn ddwyieithog a chynhwysol. Ledled Gwynedd, cynhaliwyd 49 sesiwn amrywiol yn ystod yr wythnos a dosbarthwyd dros 700 o flychau lles. Cafodd hyn effaith hynod gadarnhaol ar fywydau pobl ifanc.

Tynnodd y beirniaid sylw at y modd y mae'r ŵyl wedi helpu i ddatblygu a chryfhau cysylltiadau ar gyfer y dyfodol. Mae'r berthynas newydd rhwng y rhai sy'n cefnogi'r gwaith o gynnal yr ŵyl yn rhychwantu ffiniau sefydliadol, sy'n dangos sut y gall asiantaethau a gwasanaethau wella profiadau i bobl ifanc wrth weithio mewn partneriaeth.



## Mick Holt,
## Darpariaeth Ieuenctid Integredig Sir y Fflint

Mick Holt yw Swyddog Arweiniol Gwasanaeth Ieuenctid Integredig Cyngor Sir y Fflint. Mae hefyd yn rhedeg eco-ganolfan bwrpasol ar gyfer pobl ifanc. Mae'r ganolfan hon yn hafan i bobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu gwahardd, plant sy'n mynd i Unedau Cyfeirio Disgyblion a phlant anabl.

Drwy gydweithio â Dechrau'n Deg, y tîm sy'n cefnogi teuluoedd â phlant o dan bedair oed mewn ardaloedd difreintiedig o Gymru, sylwodd Mick ar fwlch mewn darpariaeth i deuluoedd â phlant hŷn. Datblygodd Mick y syniad o ddefnyddio cyllid Haf o Hwyl yn 2021 er mwyn agor yr eco-ganolfan ar gyfer teuluoedd â phlant o bob oed, a rhoddodd y cynllun ar waith. Roedd y sesiynau yn canolbwyntio ar weithgareddau i'r teulu cyfan, ac yn help i ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol i blant, pobl ifanc a rhieni, gan gynnwys rhieni ifanc.

O ganlyniad i ddull gweithredu arloesol Mick, mae ei dîm bellach yn derbyn arian drwy'r Gronfa Datblygiad Plant i ddarparu sesiynau wythnosol mewn cydweithrediad â Dechrau'n Deg i rieni yn yr eco-ganolfan, sy'n cynnal a chyfrannu at y gwaith gyda phobl ifanc. Mae'r tîm hefyd yn croesawu teuluoedd sydd wedi cofrestru gyda gwasanaethau statudol, gan gydnabod yr effaith y gall y gwaith hwn ei chael ar blant mewn perygl.

Gwnaeth hyn argraff fawr ar y panel beirniaid, yn enwedig felly'r ffordd yr aeth Mick i'r afael â bwlch penodol yn y ddarpariaeth, gan nodi'r cyfleoedd i'r prosiect barhau a symud ymlaen.



## Llwybr Gwlân,
## Gwasanaeth Ieuenctid Blaenau Gwent

Dyfeisiwyd y prosiect 'Llwybr Gwlân' mewn ymateb i'r bobl ifanc a oedd yn teimlo wedi'u hynysu yn sgil y pandemig a'u hawydd i feithrin cysylltiadau â'u cymuned. Y bwriad oedd dod â phobl ifanc at ei gilydd i fynegi eu hunain drwy'r celfyddydau, gan ehangu grwpiau cyfeillgarwch a datblygu sgiliau cymdeithasol ar yr un pryd.

Sefydlwyd partneriaeth gydweithredol hynod effeithiol rhwng Gwasanaethau Ieuenctid Blaenau Gwent a Tai Calon i fwrw ymlaen â'r prosiect. Cefnogodd y bartneriaeth y gwaith o ddarparu pecynnau gwlân yn rhad ac am ddim, a sefydlwyd grwpiau lles a oedd yn annog pobl ifanc i ymuno ag aelodau eraill o'r gymuned i ddylunio a chreu eitemau lliwgar.
Roedd y beirniaid yn canmol y dull gweithredu cynhwysol. O ganlyniad, sefydlwyd deugain o grwpiau gwahanol a chymerodd dros 400 o bobl ran mewn sesiynau creadigol.

Penllanw'r prosiect oedd arddangosfa yn Nhŷ Bedwellty yn Nhredegar. Bu cannoedd yn ymweld â'r arddangosfa. Mae'r sesiynau lles sy'n dal i gael eu cynnal yn sicrhau bod y prosiect yn parhau i gael effaith enfawr yn y gymuned. Ysbrydolodd y prosiect greadigrwydd, gan gynnig llawer o gyfleoedd i feithrin cydberthnasau pwysig a oedd yn pontio'r cenedlaethau.

# Diolch

## Ein beirniaid

Diolch i holl aelodau ein paneli beirniadu am fod mor barod i roi o'u hamser i feirniadu'r nifer helaeth o enwebiadau a ddaeth i law eleni.

Mae'r gwobrau hyn yn fwy ystyrlon oherwydd y mewnwelediad a'r profiad oedd ganddoch chi wrth feirniadu.

## Adloniant

Diolch i'r cerddorion ac artistiaid ifanc arbennig o dalentog sydd wedi ein diddanu yn ystod y seremoni wobrwyo.

**Cerddoriaeth fyw gan:**

David Ingham ac Elin Rolles
Laila Woodward

**Arddangosfeydd celf dan ofal:**

MAD Abertawe
Makenzy Beard

Peidiwch ag anghofio trydar am eich noson a'r gwobrau drwy ddefnyddio #GRhGI22 a #YWEA22